

Patrwm cyflwyno: O fis Chwefror i fis Medi

Disgrifiad o'r modiwl:

Mae TMXY350 yn fodiwl gorfodol a gaiff ei astudio gan fyfyrwyr sy'n dilyn ein cyfres o gymwysterau prentisiaeth yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Bydd y modiwl hwn yn adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd gan y myfyrwyr a'r profiad sydd ganddynt eisoes drwy astudio modiwlau blaenorol mewn meysydd sy'n seiliedig ar waith a meysydd ymarfer proffesiynol. Bydd y modiwl yn eu paratoi ar gyfer y prif fodiwl prosiect, yn ogystal â'u paratoi ar gyfer Asesiad Terfynol (EPA) prentisiaeth Datrysiadau Digidol a Thechnoleg (DTS), sy'n ofynnol ar gyfer prentisiaethau yn Lloegr.

Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, bydd y modiwl yn cwmpasu'r agweddau canlynol:

- Myfyrion ar brofiadau'r myfyrwyr o'r gweithle/ymchwiliad i'r rôl gwaith, a datblygu hyn ymhellach.
- Mapio gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiadau yn erbyn y safonau a'r fframweithiau perthnasol.
- Datblygu portffolio.
- Cynllunio a gwerthuso prosiect.
- Ysgrifennu adroddiadau.
- Technegau cyflwyno/cyfweliadau

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a gaiff eu nodi ym manyleb gyffredinol y person, dylech:

- allu dangos diddordeb a dealltwriaeth o ddysgu yn y gweithle, drwy lwybr gradd sy'n ymwneud â chyfrifiadura o ddewis;
- gallu cefnogi myfyrwyr i gysylltu deunyddiau modiwl ag amrywiaeth o gyd-destunau gweithle sy'n ymwneud â chyfrifiadura;
- bod yn gyfarwydd â dulliau, adnoddau a thechnegau cyfoes ar gyfer gweithio ar brosiect;
- bod yn ymrwymedig i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd sy'n briodol i'r modiwl hwn e.e. sgiliau cyfathrebu;
- bod yn gyfarwydd â'r cysyniad o safonau a fframweithiau proffesiynol a sut y gellir eu defnyddio i hwyluso dysgu, datblygu a chyflawniad.

Byddai'n fanteisiol i chi feddu ar y canlynol:

- Gwybodaeth am brentisiaethau gradd;
- Gwybodaeth am eBortffolios

Manylion y modiwl - mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	4
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	5
Y nifer amcangyfrifedig o oriau fesul wythnos addysgu:	4.5

Nid yw'r strategaeth addysgu ac asesu ar gyfer y modiwl hwn wedi cael ei chymeradwyo eto, ac felly, mae'n bosibl y caiff y wybodaeth ei newid.